

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

**2015 No. 1507**

**Rheoliadau Mêl (Cymru) 2015**

**RHAN 4**

**Gofynion ychwanegol ynglŷn â labeli**

**Gofynion ychwanegol ynglŷn â labeli**

17.—(1) Ni chaiff neb fasnachu mewn mêl oni bai bod y wlad tarddiad lle cynaeafwyd y mêl wedi ei dangos ar y label ac eithrio, os yw'r mêl yn tarddu o fwy nag un Aelod-wladwriaeth neu drydedd wlad, y caniateir gosod un o'r mynegiadau a ganlyn yn lle'r gwledydd y tarddodd ohonynt, fel y bo'n briodol—

“blend of EU honeys”;

“blend of non-EU honeys”;

“blend of EU and non-EU honeys”.

(2) Ym mharagraffau (3) i (5), ystyr “mêl perthnasol” (“*relevant honey*”) yw pob mêl ac eithrio mêl pobydd a mêl wedi ei hidlo.

(3) Caniateir ategu enw cynnyrch mêl perthnasol gyda gwybodaeth am ei darddiad blodeuol neu lysieuol ond ni chaiff neb fasnachu mewn mêl perthnasol y darperir gwybodaeth ategol o'r fath yn ei gylch oni bai bod y cynnyrch yn dod yn gyfan gwbl neu'n bennaf o'r ffynhonnell a nodir a bod ganddo nodweddion organoleptig, ffisigocemegol a microsgopig y ffynhonnell.

(4) Caniateir ategu enw cynnyrch mêl perthnasol gyda gwybodaeth am ei darddiad rhanbarthol, tiriogaethol neu dopograffyddol ond ni chaiff neb fasnachu mewn mêl perthnasol y darperir gwybodaeth ategol o'r fath yn ei gylch oni bai bod y cynnyrch yn dod yn gyfan gwbl o'r tarddiad a nodir.

(5) Caniateir ategu enw cynnyrch mêl perthnasol gyda gwybodaeth am ei feini prawf ansawdd penodol.

(6) Yn ogystal â'r geiriau a ddangosir ar y label yn rhinwedd paragraff (1), caniateir cynnwys y mynegiadau a ganlyn fel y bo'n briodol—

“cyfuniad o felau o'r UE”;

“cyfuniad o felau o'r tu allan i'r UE”; neu

“cyfuniad o felau o'r UE ac o'r tu allan i'r UE”.

(7) Nid oes dim ym mharagraffau (1) neu (6) yn atal y geiriau y caniateir eu cynnwys yn rhinwedd paragraff (1) rhag cael eu cynnwys mewn unrhyw iaith arall yn ogystal ag yn Gymraeg a Saesneg.